Ymateb Llywodraeth Cymru i: **Adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Ddeiseb P-05-736, Darparu Gwasanaethau Iechyd Meddwl mwy hygyrch**

Amlinellir isod yr ymatebion manwl i'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad:

Argymhelliad 1.

Dylai Llywodraeth Cymru drafod gweithredu dull ystyrlon, wedi'i seilio ar hawliau dynol, at wasanaethau a thriniaeth ar gyfer cleifion iechyd meddwl, gan ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau, gyda'r nod o sicrhau gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a mynediad cyfartal at wasanaethau i bob grŵp o ddefnyddwyr gwasanaeth ym mhob rhan o Gymru. Wrth wneud hynny, dylent sicrhau fod pobl yn gwbl ymwybodol o'u hawliau o ran triniaeth iechyd meddwl, a'u bod yn eu deall. Dylent wybod pa gymorth y gallant ei ddisgwyl, pwy sy'n gyfrifol am ei ddarparu, a sut i hawlio eu hawliau lle bo angen.

Ymateb: Derbyn

Mae darparu gwasanaethau a thriniaethau iechyd meddwl yn perthyn i ystod o fframweithiau a mesurau diogelwch hawliau dynol pobl, gan gynnwys Deddf Iechyd Meddwl 1983, Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a threfniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid a'u priod Godau Ymarfer, sy'n nodi sut y bwriedir hysbysu pobl am eu hawliau.

Sefydlodd Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 ("y Mesur") ddeddfwriaeth unigryw i Gymru ar sut y bwriedir darparu gwasanaethau iechyd meddwl ac i sbarduno gwelliannau, gan gynnwys hygyrchedd a chydraddoldeb gwasanaethau. Roedd hyn yn cynnwys darpariaeth bod Eiriolaeth Iechyd Meddwl Annibynnol ar gael i bawb sy'n cael gofal iechyd meddwl fel claf mewnol p'un a ydynt wedi'u cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 neu beidio. Mae Rhan 3 o'r Mesur hefyd yn galluogi cyn ddefnyddwyr Gwasanaethau Iechyd Meddwl eilaidd i ofyn am ailasesiad o'u hiechyd meddwl o fewn tair blynedd i gael eu rhyddhau o'r gwasanaethau hynny. Mae hyn yn golygu y gall pobl cysylltu â gwasanaethau yn uniongyrchol i ofyn am asesiad o'u hiechyd meddwl heb orfod mynd yn ôl i'w hymarferydd cyffredinol i drefnu atgyfeiriad at wasanaethau iechyd meddwl. Mae'n ddyletswydd ar Fyrddau Iechyd Lleol neu'r Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am wasanaethau iechyd meddwl o dan y Mesur i roi gwybodaeth i bobl gymwys adeg eu rhyddhau am sut y gallant ofyn am ailasesiad o'u hiechyd meddwl os oes angen.

Mae Strategaeth Iechyd Meddwl Llywodraeth Cymru *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl* a'r Cynllun Cyflawni ategol ar gyfer 2019-2022 (a gyhoeddir cyn hir) hefyd yn cael eu tanategu gan ddull gweithredu a seilir ar hawliau dynol. Maent yn cynnwys camau gweithredu penodol a fydd yn helpu i gefnogi a hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc, oedolion a phobl hŷn. Mae'r cynllun cyflawni'n canolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau, o safbwynt mynediad at wasanaethau a thriniaeth, ac mewn perthynas â gwella canlyniadau iechyd meddwl. Mae'n blaenoriaethu darparu gofal integredig, sy'n canolbwyntio ar y person - a'r gofal hwnnw'n cael ei ddarparu mewn ffordd sy'n cael ei lywio gan ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr. Trwy'r cynllun cyflawni, rydym wedi ymrwymo'n llawn i sicrhau bod pobl yn gwybod am eu hawliau

ac yn eu deall mewn perthynas â thriniaeth iechyd meddwl, y cymorth y gallant ei gael a'i ddisgwyl - a phwy sy'n gyfrifol am ddarparu'r gofal hwnnw.

Goblygiadau ariannol:

Caiff unrhyw oblygiadau ariannol eu hymgorffori yn y cynllun cyflawni arfaethedig, gyda'r costau'n dod o fewn cyllidebau rhaglenni presennol a dyraniadau'r GIG.

Argymhelliad 2.

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu mynediad at gymorth mewn argyfwng a sicrhau bod digon o eglurder ymhlith gweithwyr proffesiynol gofal iechyd, a staff eraill sydd mewn cysylltiad uniongyrchol â chleifion, o ran beth yw argyfwng iechyd meddwl. Dylai fod llwybr clir i bobl gael mynediad at gymorth mewn argyfwng a chefnogaeth ac, yn benodol, mae angen eglurder o ran rôl Timau Iechyd Meddwl Cymunedol a'u perthynas â gofal sylfaenol.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella gofal mewn argyfwng ac rydym wedi gwneud hyn yn flaenoriaeth i GIG Cymru, gyda chymorth cyllid ychwanegol. Mae gwella mynediad i ofal mewn argyfwng a gofal y tu allan i oriau hefyd yn faes blaenoriaeth yng Nghynllun Cyflawni *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl* 2019-22 a gyhoeddir cyn hir. I gefnogi gwelliannau, rydym wedi comisiynu Uned Gyflawni'r GIG i adolygu Gwasanaethau Cyswllt Seiciatrig a Gofal mewn Argyfwng. Bydd yr adolygiad yn edrych ar y ddarpariaeth o wasanaethau Cyswllt Seiciatrig wedi'u mapio yn erbyn gwasanaethau argyfwng, gan ganolbwyntio ar lwybrau cleifion, drwy gydol oes. Bydd yn ein helpu i ddeall y galw presennol a sut y mae gwasanaethau'n gysylltiedig â darpariaeth iechyd meddwl yn ehangach, gofal cymdeithasol ac asiantaethau eraill.

Rydym yn cydnabod mai un elfen yn unig o'r ymateb amlasiantaethol y mae ei angen yn achos argyfwng iechyd meddwl yw gwasanaethau'r GIG. Mae Grŵp Sicrwydd y Concordat Gofal mewn Argyfwng Iechyd Meddwl yn cynnwys ystod o bartneriaid, gan gynnwys y GIG, yr Awdurdodau Lleol, yr heddlu a'r trydydd sector i sbarduno gwelliannau yn y maes hwn. Mae'r holl bartneriaid yn cytuno ar yr angen i wella'r llwybr argyfwng ac i ddeall y galw ym maes iechyd meddwl yn well. Mae Uned Comisiynu Cydweithredol Cenedlaethol y GIG yn cynnal adolygiad o fynediad a chludo brys ym maes iechyd meddwl i'n helpu i ddeall y galw hwn. Mae'r adolygiad hwn yn dadansoddi data ar draws nifer o sectorau gan gynnwys y GIG, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) yr Heddlu a'r Awdurdodau Lleol. Rydym yn disgwyl cael canfyddiadau'r adolygiad yn y Gwanwyn y flwyddyn nesaf a bydd hyn yn llywio camau nesaf Llywodraeth Cymru, a chamau nesaf partneriaid eraill i wella'r llwybr argyfwng.

Mae gwaith y Concordat Gofal mewn Argyfwng Iechyd Meddwl hefyd yn cael ei gefnogi gan Bartneriaethau Iechyd Meddwl a Chyfiawnder Troseddol i gefnogi gweithio integredig ar lefel leol rhwng yr heddlu, yr awdurdodau lleol, y GIG, y trydydd sector a Llywodraeth Cymru.

Goblygiadau ariannol:

Caiff unrhyw oblygiadau ariannol eu hymgorffori yn y cynllun cyflawni arfaethedig, gyda'r costau'n dod o fewn cyllidebau rhaglenni presennol a dyraniadau'r GIG.

Argymhelliad 3.

Dylai Llywodraeth Cymru weithio i sicrhau bod gweithwyr proffesiynol gofal iechyd rheng flaen, fel meddygon teulu, yn rhagweithiol wrth drefnu cymorth i gleifion sy'n mynd drwy argyfwng iechyd meddwl. Ni ddylid rhoi taflen i glaf gan ddisgwyl y bydd yn trefnu'r gofal ar ei ben ei hun. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried a ddylai fod yn ofynnol i bobl gael atgyfeiriad gan feddyg teulu er mwyn cael mynediad at gymorth.

Ymateb: Derbyn

Mae gan weithwyr proffesiynol gofal iechyd rheng flaen rôl allweddol wrth atgyfeirio person sydd mewn argyfwng iechyd meddwl i gymorth a gwasanaethau priodol. Mae'r gweithwyr proffesiynol hynny, gan gymhwyso systemau asesu risg, hefyd yn gweithio i gadw diogelwch y claf nes i'r asesiad o'r argyfwng ddigwydd.

Er mai Ymarferwyr Cyffredinol yw'r cyswllt cyntaf i bobl mewn argyfwng yn aml, naill ai y tu mewn o i oriau neu'r tu allan i oriau, nid yw hyn bob amser yn wir. Er enghraifft, gallai'r person fynd ar ei ben ei hun, neu gael ei gludo gan deulu a ffrindiau neu'r Gwasanaethau Brys, i adran frys. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, nid oes angen atgyfeiriad gan ymarferydd cyffredinol. I'r bobl hynny sy'n cael gafael ar ofal mewn argyfwng drwy wasanaethau ymarferydd cyffredinol, disgwylir i drafnidiaeth addas gael ei darparu ar gyfer y claf, os nad oes ganddo fynediad at drafnidiaeth addas eisoes.

Bydd yr adolygiad presennol o Gyswllt Seiciatrig a Gofal mewn Argyfwng a'r Adolygiad Mynediad Brys ar gyfer Iechyd Meddwl yn ein helpu i ddeall yn well y ddarpariaeth bresennol, llwybrau a'r galw am wasanaethau ac fe fydd yn sail i gamau gweithredu pellach i wella'r llwybr argyfwng. Bydd hyn yn adeiladu ar y camau gweithredu presennol a nodir yng Nghynllun Cyflawni *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl* (2019-22), gan gynnwys datblygu llwybr argyfwng iechyd meddwl ar gyfer 111 ac Ymarferwyr Cyffredinol y tu allan i oriau.

Rydym hefyd yn cydnabod bod sicrhau bod trafnidiaeth briodol ar gael i'r rhai sydd mewn argyfwng iechyd meddwl i gael mynediad at ofal sy'n canolbwyntio ar y person ac adlewyrchir hyn yn y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Concordat Gofal mewn Argyfwng Iechyd Meddwl Bydd yr adolygiad o fynediad a chludo brys ym maes iechyd meddwl yn ein helpu ni a'n partneriaid i ddeall yn well pa fathau o drafnidiaeth y mae eu hangen - ac i wneud argymhellion wedyn ar gyfer gwella. Un o egwyddorion y concordat gofal mewn argyfwng yw ein bod yn dod o hyd i ddewisiadau amgen ar gyfer unigolion fel blaenoriaeth yn hytrach na dewisiadau amgen i asiantaethau.

Goblygiadau ariannol:

Dim. Daw'r costau o fewn cyllidebau rhaglenni a dyraniadau'r GIG, fel rhan o waith sy'n cael ei wneud i gyflawni'r Concordat Gofal mewn Argyfwng Iechyd Meddwl.

Argymhelliad 4.

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried dulliau eraill o ddarparu gwasanaethau gofal mewn argyfwng a'u cymhwysedd i Gymru, gan gynnwys y model lloches argyfwng sy'n gweithredu mewn sawl dinas yn y DU.

Ymateb: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru a'r GIG yng Nghymru gydag asiantaethau i gefnogi pobl mewn argyfwng ac rydym wedi gwneud gwella gofal mewn argyfwng a gofal y tu allan i oriau yn flaenoriaeth, gyda chyllid ychwanegol i gefnogi'r gwaith hwn. Rydym wedi cytunwyd â phartneriaid ar yr angen i fuddsoddi mewn dulliau gweithredu mewn perthynas â chefnogi'r rhai mewn argyfwng iechyd meddwl ac rydym yn annog yr holl bartneriaid i gynnwys gwerthuso yn rheolaidd i'n galluogi i ddeall beth sy'n gweithio. Gan ddefnyddio'r buddsoddiad ychwanegol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi o 2019/20 mae nifer o fyrddau iechyd yn rhoi cynnig ar wahanol ddulliau gweithredu, mewn partneriaeth â'r heddlu gan gynnwys gwasanaeth brysbennu ar y stryd a chludo.

Bydd gan Grŵp Sicrwydd y Concordat Gofal mewn Argyfwng Iechyd Meddwl rôl allweddol wrth ein helpu i ystyried pa ddulliau gweithredu, gan gynnwys y model Lloches Argyfwng, sydd fwyaf effeithiol.

Bydd yr adolygiad mynediad a chludo brys ym maes iechyd meddwl yn ein helpu hefyd i ddeall ble mae angen inni weithio gyda phartneriaid i wella'r llwybr argyfwng.

Goblygiadau ariannol:

Dim. Daw'r costau o fewn cyllidebau rhaglenni a dyraniadau'r GIG, fel rhan o waith sy'n cael ei wneud i gyflawni'r Concordat Gofal mewn Argyfwng Iechyd Meddwl.

Argymhelliad 5.

Mae'r targedau amseroedd aros newydd ar gyfer triniaeth mewn gofal sylfaenol yn gam cadarnhaol ymlaen. Fodd bynnag, mae angen erbyn hyn i Lywodraeth Cymru adolygu'r gwaith o weithredu targedau iechyd meddwl mewn gofal eilaidd, o gofio'r gwahaniaeth rhwng targedau sydd ar waith mewn gwasanaethau gofal eilaidd (26 wythnos) a gofal sylfaenol (28 diwrnod).

Ymateb: Derbyn

Rydym wedi mynd ati i gasglu data ar gyfer therapïau seicolegol arbenigol cyn dechrau adrodd yn ffurfiol o 2019. Disgwylir y bydd y byrddau iechyd wedi dechrau trin 80% o gleifion o fewn y targed o 26 wythnos. Rydym yn bwriadu lleihau'r targed hwn pan fydd y buddsoddiad newydd yr ydym yn ei wneud o eleni ymlaen yn ein galluogi i wneud hynny.

Goblygiadau ariannol:

Dim. Daw'r costau o fewn cyllidebau rhaglenni a dyraniadau'r GIG.

Argymhelliad 6.

Dylai Llywodraeth Cymru adolygu mynediad at therapïau seicolegol a chymryd camau priodol i sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gael ledled Cymru, gan gynnwys therapi unigol pan fydd angen hynny.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Cynhyrchodd y Pwyllgor Rheoli Cenedlaethol ar gyfer Therapïau Seicolegol gynllun gweithredu i gynorthwyo byrddau iechyd i asesu eu sefyllfa bresennol ac i wella'n lleol. Mae pob bwrdd iechyd wedi cynnal archwiliad i nodi ble y mae angen darpariaeth ychwanegol ac i dargedu adnoddau yn briodol.

Mae'r cynllun cyflawni arfaethedig *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl* 2019-2022 yn cynnwys nifer o gamau gweithredu i gefnogi'r gwelliant hwn, gan gynnwys cyflwyno seilwaith therapïau seicolegol yng Nghymru a fydd yn cefnogi datblygu'r gweithlu ac yn cryfhau llywodraethiant.

Mae'r gwaith yn cael ei danategu gan gyllid ychwanegol ac ers 2016-16 rydym wedi cynyddu £75m neu 12.5% ar y cyllid iechyd meddwl ym mhrif ddyraniad y GIG ac yn 2019-20 fe'i pennir yn £679m.

Mae hyn yn cynnwys buddsoddiad penodol o£4 miliwn y flwyddyn ers 2018/19 ar gyfer therapïau seicolegol ac rydym wedi gwneud buddsoddiad ychwanegol eleni trwy'r gronfa gwella gwasanaethau gan ein bod wedi bod yn glir bod rhaid i hyn fod yn un o'r meysydd blaenoriaeth i'w hystyried gan fyrddau iechyd.

Fel rhan o'r gwaith hwn cyhoeddodd Matrics Cymru hefyd ganllawiau ar gyfer darparu therapïau seicolegol a seilir ar dystiolaeth yng Nghymru gan y Pwyllgor Rheoli Cenedlaethol ar gyfer Therapïau Seicolegol (NPTMC).

Goblygiadau ariannol:

Caiff unrhyw oblygiadau ariannol eu hymgorffori yn y cynllun cyflawni arfaethedig, gyda'r costau'n dod o fewn cyllidebau rhaglenni presennol a dyraniadau'r GIG.

Argymhelliad 7.

O ystyried y dystiolaeth y mae'r Pwyllgor wedi'i chael wrth drafod nifer o ddeisebau yn galw am welliannau i'r driniaeth a'r cymorth sydd ar gael i gleifion iechyd meddwl, y gwaith manwl a wnaed gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ei adroddiad "Cadernid Meddwl", a phrofiadau'r Aelodau gyda'r problemau y mae etholwyr yn eu hwynebu wrth geisio cael mynediad at wasanaethau, dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'n sylweddol yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd meddwl i bob claf, gan gynnwys y rheini sy'n mynd drwy argyfyngau iechyd meddwl.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Ers 2016-17 rydym wedi cynyddu £75m neu 12.5%. ar gyllid Iechyd Meddwl ym mhrif ddyraniad y GIG. Mae'r swm wedi'i glustnodi hwn wedi codi £20m yn 2019-20, gan fynd â'r cyfanswm cyffredinol i £679m. Cefnogir hyn gan £14.3 m yn ychwanegol o fuddsoddiad 'Cymru Iachach', rhywfaint ohono wedi'i dargedu i gefnogi meysydd blaenoriaeth allweddol gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned, gwasanaethau y tu allan i oriau ac argyfwng, a gwasanaethau iechyd meddwl plant.

Yn ogystal â chodiadau cyllid mae rhaglen diwygio a gwella sylweddol ar draws ein GIG. Mae'n bwysig cofio bod y mwyafrif helaeth o ffactorau sy'n arwain at alw cynyddol am wasanaethau iechyd meddwl y tu allan i ddylanwad y GIG. Byddwn yn parhau i wella a buddsoddi mewn gwasanaethau iechyd meddwl.

Goblygiadau ariannol:

Caiff unrhyw oblygiadau ariannol eu hymgorffori yn y cynllun cyflawni arfaethedig, gyda'r costau'n dod o fewn cyllidebau rhaglenni presennol a dyraniadau'r GIG.